Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol San Siôr
# Rhodfa'r Eglwys
# Llandudno
# Conwy
# LL30 2HL

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol San Siôr yn ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru ac fe'i lleolir yn nhref Llandudno, Conwy.

Mae 245 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 30 o blant yn y dosbarth meithrin rhan-amser. Ceir wyth o ddosbarthiadau yn yr ysgol ac fe'u haddysgir gan saith athro amser llawn a phedwar athro rhan-amser.

Mae tua 6% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn sylweddol islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 24% o ddisgyblion, sy'n debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o darddiad gwyn Prydeinig. Caiff tua 18% o ddisgyblion gymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1994, ac ym Mehefin 2009 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol San Siôr yn 2016-2017 yw £3,385. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,063 a'r lleiafswm yw £3,225. Mae Ysgol San Siôr yn y 49fed safle o'r 55 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:**

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol a'u bod yn cyflawni'r safonau disgwyliedig
- bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn erbyn eu targedau personol
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel
- yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau difyr dan do ac yn yr awyr agored i ddisgyblion
- athrawon yn cynllunio gwersi diddorol, gydag amcanion dysgu clir, a bod bron pob gwers yn adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus
- ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:**

- arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol
- aelodau'r uwch dîm rheoli yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a'u bod yn cyflawni'r rhain yn effeithiol a chydwybodol iawn
- y llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol a bod mentrau diweddar wedi sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella
- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn glir ac yn nodi blaenoriaethau priodol yn dda, a bod pob un o'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar safonau a lles disgyblion
- yr ysgol yn pennu targedau realistig a heriol er mwyn gwella safonau
- partneriaethau effeithiol iawn gan yr ysgol sy'n gwella profiadau dysgu disgyblion yn fawr
- yr ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda

## Argymhellion

A1 Parhau i wella presenoldeb

A2 Gwella'r cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau parhad a dilyniant gwell ar draws dosbarthiadau

A3 Sicrhau bod gwybodaeth asesu'r ysgol yn cael ei defnyddio'n fwy effeithiol i gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol

A4 Datblygu rôl y corff llywodraethol ymhellach wrth fonitro perfformiad yr ysgol a dwyn yr ysgol i gyfrif

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau medrau a ddisgwylir am eu hoedran a'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol, ac maent yn cyflawni safonau disgwyliedig. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau siarad a gwrando yn effeithiol, ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau yn gywir mewn sefyllfaoedd gwahanol. Maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn gallu rhoi barnau clir ar gymeriadau yn stori'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n rhydd ac yn hyderus wrth drafod eu gwaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn trafod materion yn gysylltiedig â datgoedwigo yn aeddfed ac yn wybodus i safon uchel.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Defnyddiant strategaethau llwyddiannus wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad am gymeriadau a digwyddiadau yn eu hoff lyfrau, ac yn enwi'r awduron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen gyda rhugler a mynegiant, ac erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau darllen lefel uwch yn bwrpasol. Maent yn trafod llyfrau y maent wedi'u darllen gyda dealltwriaeth glir, ac mae ganddynt wybodaeth eang am awduron amrywiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i gasglu gwybodaeth o lyfrau ac o wefannau wrth ymchwilio eu gwaith testun.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol gyda mwy a mwy o gywirdeb. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig, yn greadigol ac wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy stori yn seiliedig ar y Mochyn Barus ac ysgrifennu penawdau ym mhapur y San Siôr Times. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn dda. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau hir gan ddefnyddio ystod eang o eirfa yn fedrus i wella eu hysgrifennu. Defnyddiant ystod eang o gyfryngau, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at Syr David Attenborough am gadwraeth, a gwaith ffeithiol a chreadigol am yr Ail Ryfel Byd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Maent yn ysgrifennu, yn darllen ac yn trefnu rhifau i gant, yn adio a thynnu rhifau dau ddigid ac yn gwneud symiau adio a thynnu syml yn hyderus. Maent yn gwybod enwau a phriodweddau siapiau 2D syml ac yn defnyddio clociau analog a digidol i ddweud faint o'r gloch yw hi yn gywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion

yn defnyddio ystod o fedrau mesur priodol yn gywir fel centimetrau, cilogramau a gramau gyda dealltwriaeth dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cofnodi gwybodaeth syml am eu hoff ffrwyth yn gywir ac yn defnyddio hyn i greu graff bar syml. Maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn bwrpasol mewn ystod o gyd-destunau bywyd go iawn, fel pan fyddant yn cyfrifo cynhwysion sydd eu hangen i bobi cacen ac wrth becynnu wyau i'w marchnata.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn sicr. Maent yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn eu gwaith amgylcheddol, er enghraifft pan fyddant yn cymharu nifer yr wyau sy'n cael eu dodwy bob blwyddyn, ac wrth gyfrifo'r elw a wneir o werthu siytni. Mae dealltwriaeth dda o rif a gwerth lle gan bron pob un o'r disgyblion. Defnyddiant ystod dda o ddulliau pen ac ysgrifenedig yn hyderus ac yn gywir i ddatrys problemau ac maent yn esbonio'r strategaethau a ddefnyddiant yn glir. Mae llawer yn gweithio ffracsiynau a chanrannau syml allan ac maent yn hyderus wrth esbonio'u rhesymeg. Mae ganddynt fedrau trin data priodol ac maent yn cofnodi data'n gywir ar siart bar a graff llinell, er enghraifft wrth ymchwilio i hyd oes anifeiliaid gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac at ystod o ddibenion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llechi yn effeithiol i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer ohonynt yn defnyddio rhaglenni cyhoeddi yn hyderus i gynhyrchu pictogram a graff bloc am fathau gwahanol o grempogau. Maent yn creu, yn storio ac yn derbyn cynnwys digidol yn llwyddiannus, er enghraifft i ddylunio'r clawr ar gyfer papur newydd yr ysgol. Defnyddir rhaglenni modelu yn gywir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion trwy ddilyn cyfarwyddiadau i gyfarwyddo tegan rhaglenadwy. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio sganiwr 'QR' yn annibynnol ac yn gywir i ddatrys problemau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfleu gwybodaeth yn glir ar sgrin ac yn cyflwyno'u gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n addas at y gynulleidfa. Ym Mlynyddoedd 3 a 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cwestiynu data yn effeithiol, er enghraifft i gyflwyno gwybodaeth am y llif traffig yn y dref. Ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn datblygu'u medrau yn hyderus i wneud cyflwyniadau at ddibenion gwahanol, fel gwybodaeth am ffasiwn drwy'r oesoedd. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn sicr ar draws yr ysgol.

Mae agwedd gadarnhaol at iawn at ddysgu Cymraeg gan bron pob un o'r disgyblion. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn dda i gwestiynau am gymeriadau yn y stori y maent wedi'i darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar y gwaith yn y Cyfnod Sylfaen, a defnyddiant ystod dda o eirfa a phatrymau brawddegau sylfaenol yn dda, er enghraifft wrth ateb cwestiynau am eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn hyderus y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae medrau darllen ac ysgrifennu'r rhan fwyf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir am gymeriadau yn y llyfr

'Sanau Newydd Sali'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dilyniant a defnydd clir o ystod eang o ymadroddion a brawddegau wedi'u hysgrifennu'n gywir gan ddefnyddio patrymau cyfarwydd i gyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol sydd o fewn eu profiad, er enghraifft wrth ysgrifennu proffiliau personol ar gyfer athro newydd ac ysgrifennu blog ynglŷn ag ymweliad â gwesty.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd ar y deilliant disgwyliedig wedi bod uwchlaw'r canolrif yn rheolaidd o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad o ran y deilliant uwch dros yr un cyfnod wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol uwchlaw'r canolrif yn gyffredinol o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y lefel uwch ym mhob pwnc dros yr un cyfnod wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gwelliant cyson wedi bod o flwyddyn i flwyddyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn y pedair blynedd diwethaf, felly nid yw'n ystyrlon gwneud cymariaethau rhwng eu perfformiad nhw a pherfformiad disgyblion eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes unrhyw wahaniaeth nodedig ar y lefel ddisgwyliedig rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ond mae merched yn tueddu i wneud yn well mewn Saesneg. Ar y lefel uwch, mae merched yn tueddu i berfformio'n well na bechgyn ym mhob pwnc.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cymorth o ansawdd uchel gan oedolion yn yr ysgol. Maent yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff os oes ganddynt bryderon. Mae dealltwriaeth sicr gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth uchel gan y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn hynod gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Maent yn falch o'u hysgol, ac mae eu hagwedd at ddysgu yn ganmoladwy. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth ddatblygol o ba mor dda maent yn gwneud a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar ystod eang o gyfleoedd i leisio barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco bwyllgor yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli barnau disgyblion eraill yn y gymuned ysgol. Maent yn cydweithio'n arbennig o effeithiol â staff i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, iach a hapus, er enghraifft wrth fuddsoddi'r elw a wnânt i wella offer chwarae awyr agored a sefydlu cwtsh darllen. Mae disgyblion yn disgrifio'n frwdfrydig sut y buont yn llwyddiannus yn lobïo'r awdurdod lleol i ostwng y terfyn cyflymder y tu allan i'r ysgol.

Un nodwedd ragorol yw medrau entrepreneuraidd disgyblion. Mae llawer ohonynt yn trafod yn hyderus ac aeddfed iawn sut maent yn gwerthu'r mêl, siytni ac wyau a gynhyrchir ganddynt. Maent yn wybodus iawn ac yn trafod yn fanwl sut maent yn gwneud ymchwil, yn cyfrifo'r gost, yn rheoli ansawdd ac yn gwerthu eu cynnyrch mewn mannau gwahanol. Cydnabyddir y gwaith arloesol hwn yn eang y tu hwnt i'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae rhan weithgar mewn gweithgareddau cymunedol ac maent yn ymfalchïo yn y cyfle i weithio gyda busnesau lleol. Cymerir rhan weithgar gan yr holl ddisgyblion yn codi arian at elusennau fel Plant mewn Angen a hosbisau lleol. Mae hyn yn helpu disgyblion i gael mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 50% o ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, gwnaed gwelliant graddol yn y tair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb yn dda yn gyffredinol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored, sy'n bodloni'r gofynion statudol ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Defnyddir yr amgylchedd dysgu awyr agored creadigol iawn yn arloesol, ac fe'i defnyddir yn helaeth wrth gynllunio cwricwlwm yr ysgol.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i ymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol ac mae hyn yn arwain at gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae rhaglenni ymyrraeth rhifedd a llythrennedd yn cefnogi disgyblion targedig yn dda. Mae athrawon yn dechrau cynllunio a gweithredu agweddau ar Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i sicrhau parhad a dilyniant mor gadarn yng nghyfnod allweddol 2 ag yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol ac ymweliadau addysgol diddorol yn gwella ac yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau addysgol â Rhyd Ddu yn datblygu medrau cymdeithasol disgyblion yn dda.

Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol. Mae'r rhaglenni gwaith cynlluniedig yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'u medrau yn bwrpasol wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac mae ethos Cymreig cryf yn yr ysgol. Mae astudiaethau o arlunwyr o Gymru fel Kyffin Williams, ac o ardaloedd gwahanol o Gymru, yn nodweddion da wrth ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru.

Mae llawer o drefniadau llwyddiannus ar waith yn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am fywydau pobl eraill mewn gwahanol rannau o'r byd wedi'u datblygu'n dda iawn.

Drwy weithgareddau Masnach Deg eang yr ysgol, darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymharu'n fanwl bywyd plentyn mewn planhigfa de ym Malawi â'u bywyd eu hunain. Mae gweithgareddau'n gysylltiedig ag ailgylchu, ynni solar a thyfu a chynhyrchu ystod o gynnyrch cartref wedi'u cydnabod yn eang ar lefel genedlaethol fel rhai rhagorol.

**Addysgu: Da**

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu ystod o weithgareddau ysgogol sy'n cyfateb i anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwrpasol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi diddorol, gydag amcanion dysgu clir. Ceir cyflwyniadau bywiog ac â rhediad da iddynt, ac mae hyn yn ysgogi rhan fwyaf y disgyblion i weithio'n gydwybodol. Mae bron pob un o'r gwersi yn adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus.

Mae'r holl oedolion yn yr ysgol yn fodelau rôl da i ddisgyblion ac yn hyrwyddo perthnasoedd gweithio cadarnhaol iawn. Gwelir hyn yn arbennig wrth ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn ehangu eu dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gweithiant yn effeithiol gyda'i gilydd i hyrwyddo safonau da a'r ymddygiad da a ddangosir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Yn yr arfer orau, mae'r marcio yn helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae athrawon yn annog disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith rhai eraill, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cofnodi eu cynnydd yn fanwl. Fodd bynnag, nid yw pob athro yn defnyddio system olrhain yr ysgol yn effeithiol i nodi cyflawniadau disgyblion ac i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Ceir trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni ar gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Caiff ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae trefniadau priodol yn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac i sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol, yn ogystal â rhaglen chwaraeon helaeth ar ôl ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac mae'n golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill. Dangosir hyn yn glir yn y ffordd ofalgar y mae disgyblion yn trin ei gilydd.

Mae'r cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol ac yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion y mae angen help

ychwanegol arnynt yn gynnar. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau manwl, ymarferol. Cyflwynir ystod eang o ymyriadau penodol iawn i gefnogi'r targedau hyn gan gynorthwywyr addysgu medrus, a gweithiant yn dda gyda rhieni i adolygu cynnydd disgyblion ar gyfnodau rheolaidd. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n derbyn cymorth yn gwneud cynnydd da, a chynnydd da iawn weithiau, mewn perthynas â'u targedau unigol.

Gwneir defnydd da o ystod eang o asiantaethau arbenigol gan staff i gefnogi anghenion penodol disgyblion yn dda, gan gynnwys seicolegydd addysgol, therapyddion lleferydd ac athrawon arbenigol. Mae hyn yn cyfrannu at ddarparu cymorth o ansawdd uchel i ddisgyblion targedig a'u rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Un nodwedd o'r ysgol sy'n arbennig o gryf yw ei hethos agos, teuluol. Mae'n gymuned gynhwysol a gofalgar iawn lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Rhoddir pwyslais cadarn ar werthoedd moesol a gofal a pharch disgyblion at eu hunain a phobl eraill.

Ceir pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm eang i bob disgybl. Hyrwyddir parch at amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy waith amrywiol, sy'n cynnwys astudio gwledydd fel Malawi, Sri Lanka a Phacistan.

Er bod yr adeilad presennol braidd yn gyfyng, gwneir defnydd llawn o'r holl ofod sydd ar gael dan do a thu allan i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae'r ardal awyr agored wedi'i datblygu i safon uchel eithriadol. Mae'n cynnwys lle i ieir a ffesantod, gwenynfa, perllan, gardd bywyd gwyllt a phwll trochi. Gwneir defnydd llawn o'r rhain gan yr holl ddisgyblion, ac maent wedi datblygu'u medrau gofalu am anifeiliaid yn effeithiol iawn ynghyd â'u medrau entrepreneuraidd. Mae mannau eraill yn yr awyr agored wedi'u trefnu'n ddychmygus yn barthau gwahanol, ac maent yn darparu cyfleoedd da iawn drwy weithgareddau chwarae a dysgu sydd wedi'u trefnu'n dda i'r holl ddisgyblion ddatblygu'u medrau. Mae'r ysgol yn arbennig o falch o'i sw, sy'n gartref i ystod eang o bryfed ac ymlusgiaid. Mae disgyblion hŷn yn rhoi cyflwyniadau am eu gwaith i ddisgyblion o ysgolion eraill yn rheolaidd.

Ceir adnoddau o ansawdd da ym mhob maes sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dewis eang o lyfrau o ansawdd uchel ac adnoddau TGCh digonol.

Mae arddangosiadau ysgogol a deniadol o waith athrawon i hyrwyddo dysgu disgyblion a chyflawniadau a llwyddiannau disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol, ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Maent hefyd yn ysgogi balchder disgyblion yn eu gwaith. Mae safon y glendid yn uchel a chaiff adeilad a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent yn ddiogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ac mae'n rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda phob un o'r staff, llywodraethwyr a disgyblion. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a chyflawnant y rhain yn effeithiol a chydwybodol iawn. Mae'r athrawon yn ymroddedig ac yn frwdfrydig, ac mae'r holl staff yn gweithio'n agos â'i gilydd fel tîm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod darpariaeth ac i olrhain cynnydd disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar y profiadau eang ac ysgogol a ddarperir i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion ac i godi safon gwaith disgyblion.

Ceir gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol yn yr ysgol i bob aelod o staff, ac mae'r pennaeth yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol aelodau staff yn tanategu'r broses yn dda.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae mentrau diweddar wedi sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu. Maent wedi dechrau ymweld â'r ysgol yn ogystal â mynychu cyflwyniadau ar ddata a pherfformiad yr ysgol. Hefyd, maent wedi cymryd rhan mewn craffu ar lyfrau gydag aelodau o'r staff er mwyn dysgu mwy am y ddarpariaeth a safonau.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol fel Cymraeg a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

**Gwella ansawdd: Da**

Ceir gweithdrefnau cadarn ac effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn glir ac yn nodi blaenoriaethau priodol yn dda, bob un ohonynt yn canolbwyntio'n briodol ar safonau a lles disgyblion. Mae'n defnyddio ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau ystafell ddosbarth, dadansoddiad gofalus o ddata perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol a phrofion cenedlaethol, monitro darpariaeth a chraffu ar waith disgyblion. Mae deilliannau'r gweithgareddau hyn yn pennu'r prif flaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn gofyn am farnau disgyblion a rhieni yn rheolaidd, ac yn gweithredu yn unol â'u syniadau ac awgrymiadau. Mae hyn yn amlwg iawn, er enghraifft yn y gwelliannau parhaus a wneir i dir yr ysgol. Rhoddir cyfleoedd mynych i rieni drafod gwaith eu plentyn ac i godi unrhyw faterion o bryder.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cynnwys ystod eang o gamau addas, mae'n nodi'r staff sy'n gyfrifol am eu cyflawni ac yn cynnwys graddfeydd amser realistig. Mae gan uwch arweinwyr drefniadau monitro trwyadl ar gyfer arfarnu cynnydd tuag at flaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw rôl strategol y corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi'i datblygu'n llawn.

Mae hanes da gan yr ysgol o ddwyn gwelliannau yn eu blaen yn ei darpariaeth. Er enghraifft, mae camau diweddar i wella darllen bechgyn wedi bod yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae partneriaethau effeithiol iawn gan yr ysgol sy'n gwella profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'n gweithio'n arloesol gyda nifer o fanwerthwyr, sefydliadau, clybiau chwaraeon lleol a mannau addoli. Un enghraifft ragorol yw'r bartneriaeth lwyddiannus gyda man gwerthu bwyd lleol i werthu'r wyau y mae'n eu cynhyrchu yn ei fenter dofednod sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol. Mae'r profiad hwn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau entrepreneuraidd disgyblion yn ogystal â'u medrau rhifedd a llythrennedd.

Mae'r bartneriaeth â gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn arbennig o gryf ac mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn ystod eang o fentrau, gan gynnwys darparu cymorth i ysgolion eraill, siarad mewn cynadleddau a chroesawu athrawon eraill i'r ysgol i rannu arfer dda, yn enwedig o ran ei hymagwedd at ei gwaith entrepreneuraidd ac amgylcheddol unigryw.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol iawn â nifer o sefydliadau hyfforddi, fel Prifysgol Cymru a Choleg Llandrillo. Mae myfyrwyr ymchwil o Brifysgol John Moores yn Lerpwl yn ymweld â'r ysgol yn flynyddol er mwyn astudio'r modd yr eir i'r afael â materion cynaliadwyedd yn yr ysgol fel rhan o raglen genedlaethol sy'n edrych ar 'Cynaliadwyedd yn y Blynyddoedd Cynnar ledled y DU'.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r cylch chwarae lleol ac mae hyn yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae cydweithio gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn cefnogi pontio llwyddiannus disgyblion i Flwyddyn 7. Mae'r trefniadau yn cynnwys ymweliad wythnos wedi'i gynllunio'n dda lle caiff disgyblion eu trochi yn yr ystod gyfan o weithgareddau cwricwlaidd a bugeiliol fel bod disgyblion yn dod yn gyfarwydd iawn ag amgylchedd ac arferion ysgol uwchradd.

Arweiniodd gweithio mewn partneriaeth gyda'r clwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd at gymedroli a safoni asesiadau yn effeithiol iawn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, a chynhyrchu portffolios gwaith manwl. Maent yn ychwanegu trylwyrdeb priodol i'r broses asesu ac yn hysbysu'r holl bartneriaid yn llwyddiannus ynglŷn â'r safonau y dylai disgyblion eu cyflawni.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae nifer addas o staff cymwys a phrofiadol gan yr ysgol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu a lles disgyblion. Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a rheolir y trefniadau yn effeithiol. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth cynhwysfawr a phwrpasol i ddisgyblion. Cânt effaith gadarnhaol ar wella safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion, er enghraifft mewn mathemateg a darllen.

Mae pob un o'r staff yn cyfranogi mewn digwyddiadau hyfforddi rheolaidd, yn gysylltiedig â'u targedau a'u blaenoriaethau unigol. Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu ac mae staff yn rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill yn yr ardal a thu hwnt, er enghraifft dysgu byd-eang a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n dda.  Mae’r pennaeth a llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau’r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol.  Mae’r grŵp ‘Ffrindiau San Siôr’ yn codi arian sylweddol bob blwyddyn, a chaiff ei wario, er enghraifft, ar brynu adnoddau mathemateg newydd ac ar wella adnoddau TGCh.

Mae’r cynlluniau presennol ar gyfer dyrannu’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn canolbwyntio’n briodol ar gynorthwyo disgyblion sy’n agored i niwed ac ar fynd i’r afael â thangyflawniad mewn darllen a mathemateg.  O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion targedig yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf.

Oherwydd y safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd effeithiol y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6623307 - Ysgol San Sior**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 242 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.7 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 30 | 29 | 30 | 31 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 93.1 | 93.3 | 93.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 29 | 30 | 31 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 93.1 | 96.7 | 96.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.0 | 27.6 | 20.0 | 32.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 29 | 30 | 31 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 93.1 | 96.7 | 96.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 43.3 | 27.6 | 30.0 | 38.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 29 | 30 | 31 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 93.3 | 96.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.7 | 37.9 | 33.3 | 61.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6623307 - Ysgol  San Sior**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 242 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.7 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 27 | 30 | 29 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.6 | 86.7 | 89.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 30 | 29 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.6 | 86.7 | 93.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 36.7 | 41.4 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 30 | 29 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 93.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.6 | 36.7 | 31.0 | 56.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 30 | 29 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.3 | 100.0 | 89.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.6 | 33.3 | 34.5 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 120 | 115<br>96%<br>98% | 5<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 120 | 95<br>79%<br>92% | 25<br>21%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 120 | 108<br>90%<br>97% | 12<br>10%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 120 | 105<br>88%<br>97% | 15<br>12%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 119 | 95<br>80%<br>96% | 24<br>20%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 118 | 108<br>92%<br>96% | 10<br>8%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 120 | 116<br>97%<br>99% | 4<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 120 | 114<br>95%<br>98% | 6<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 119 | 95<br>80%<br>90% | 24<br>20%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 120 | 110<br>92%<br>95% | 10<br>8%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 119 | 53<br>45%<br>77% | 66<br>55%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 119 | 78<br>66%<br>84% | 41<br>34%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 73 | 48 | 24 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 66% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 73 | 54 | 18 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 73 | 58 | 13 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 79% | 18% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 73 | 41 | 28 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 56% | 38% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 73 | 34 | 32 | 4 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 44% | 5% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 73 | 44 | 27 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 37% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 73 | 41 | 28 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 56% | 38% | 1% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 73 | 23 | 39 | 6 | 1 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 32% | 53% | 8% | 1% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 73 | 43 | 18 | 6 | 0 | 6 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 59% | 25% | 8% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 73 | 41 | 22 | 3 | 0 | 7 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 73 | 50 | 18 | 2 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 25% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 73 | 35 | 19 | 5 | 0 | 14 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 48% | 26% | 7% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 73 | 30 | 28 | 12 | 1 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 41% | 38% | 16% | 1% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 73 | 43 | 22 | 7 | 0 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 59% | 30% | 10% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 73 | 33 | 30 | 2 | 0 | 8 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 73 | 43 | 26 | 1 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 59% | 36% | 1% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 73 | 31 | 15 | 2 | 0 | 25 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 21% | 3% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 73 | 52 | 20 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 71% | 27% | 1% | 0% | | |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 73 | 43 | 28 | 2 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Gruffydd Dylan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ian Keith Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6)

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.